cymryd rhan get involved

# NODYN BRIFFIO TÎM YMGYSYLLTU

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

IONAWR 2020



## Y TÎM YMGYSYLLTU


**PENNAETH YMGYSYLLTU**

Robert Callow
Robert.callow@wales.nhs.uk

**SWYDDOG YMGYSYLLTU'R GORLLEWIN**

Iwan Jones
Iwan.jones@wales.nhs.uk

**SWYDDOG YMGYSYLLTU ARDAL Y CANOL**

Megan Vickery
Megan.vickery@wales.nhs.uk

**SWYDDOG YMGYSYLLTU'R DWYRAIN**

Karen Owen
Karen.owen5@wales.nhs.uk


## CROESO I DDIWEDDARIAD BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR.

Yn ystod y chwarter diwethaf (Mis Medi - Mis Rhagfyr 2019) mae ystod eang o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid wedi parhau ar draws Gogledd Cymru.  Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar nifer o feysydd pwysig gan gynnwys datblygiad a gwelliannau i wasanaeth, gwella iechyd ac addysg; a chryfhau ein partneriaethau a'n rhwydweithiau.




## YMGYRCH Y FFLIW

Lansiwyd ymgyrch y ffliw eleni ar 1 Hydref ac fe roddodd gyfle i ni godi ymwybyddiaeth am fanteision brechlyn y ffliw. Roedd ein dull eleni wedi'i dargedu lawer yn fwy nag mewn blynyddoedd blaenorol ac rydym wedi bod yn ymgysylltu â grwpiau sydd fwy mewn perygl i'w hannog i gael y brechlyn ffliw.

Yn ystod y chwarter diwethaf, bu i ni fynychu nifer o ddigwyddiadau i siarad â phobl am aros yn iach ac i roi gwybodaeth am sut i gael eu brechu. Roeddem yn nigwyddiadau Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd, digwyddiadau Pobl Hŷn Rhyngwladol yng Nghei Connah a Wrecsam a Chaergybi, sesiynau galw heibio 'wythnos Gofalu amdanaf fy hun' ar draws Gwynedd, Diwrnod Pobl Hŷn Cartrefi Conwy a Gŵyl Fwyd Llangollen, i enwi dim ond ychydig.

Cyflawnodd Tîm Ardal y Dwyrain hefyd raglen iechyd da'r gaeaf a oedd yn cynnwys hybu imiwneiddio rhag y ffliw a chodi ymwybyddiaeth ohono. Dechreuwyd digwyddiadau yn Ysbyty Maelor, Wrecsam, ysbytai cymuned, canolfannau iechyd ac mewn safleoedd sector gyhoeddus drwy ein digwyddiadau Iechyd Fesul Tamaid.




## MEDDYGAETH NIWCLEAR

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn adolygu'r ffordd mae gwasanaethau meddygaeth niwclear yn cael eu darparu ar draws Gogledd Cymru. Rydym wedi bod yn symud hyn ymlaen drwy gefnogi digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid a digwyddiadau ymgysylltu clinigol ac arolygon defnyddwyr gwasanaeth. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu ar draws Gogledd Cymru a phedwerydd digwyddiad yn y Trallwng i sicrhau ein bod yn clywed gan breswylwyr o Bowys sy'n cael mynediad at wasanaethau PET / CT yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Bydd y digwyddiadau hyn yn helpu i hysbysu gwelliannau i'r gwasanaeth a chefnogi achos busnes y dyfodol ar gyfer cyllid gan Lywodraeth Cymru.



# AILDDATBLYGIAD UNED ABLETT

Er mwyn hysbysu am ail ddatblygiad arfaethedig Uned Ablett yn Ysbyty Glan Clwyd, fe gynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2019.

Pwrpas y digwyddiadau anffurfiol hyn oedd casglu adborth gan randdeiliaid am welliannau i ofal cleifion mewnol iechyd meddwl pobl hŷn yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Roeddem un ai yn bresennol neu wedi cynnal 18 cyfarfod a digwyddiadau ac fe siaradon ni ag oddeutu 225 o bobl. Roedd hyn yn cynnwys pobl sydd â phrofiad personol o ofal iechyd meddwl pobl hŷn, eu gofalwyr, ein staff ein hunain a staff o sefydliadau partner.

cymryd rhan get involved

Yn ogystal â rhoi adborth a syniadau, darparodd nifer o'r rhai y bu i ni siarad â nhw awgrymiadau gwerthfawr ar sut i sicrhau y gall cynllun yr Uned Asesu Dementia arfaethedig yn Ysbyty Glan Clwyd ddarparu gwelliannau i staff, cleifion a'u hanwyliaid.

Mae'r awgrymiadau a'r sylwadau hyn wedi cael eu bwydo'n ôl i'n Grŵp Cynllunio Ailddatblygiad Ablett, a byddant yn cael eu defnyddio i hysbysu am ddatblygiadau ein hamgylchedd ar gyfer pobl hŷn yn y dyfodol.



# IECHYD YN Y GWEITHLE FESUL TAMAID



Rôl bwysig y Bwrdd Iechyd yw cefnogi pobl i aros yn iach. Un grŵp o bobl rydym wedi bod yn ymgysylltu'n rhagweithiol â nhw yw'r rhai o oedran gweithio. Mae pobl oedran gweithio yn aml yn anwybyddu eu pryderon iechyd, ac os nad ydych yn mynd i'r afael â nhw, fe allant arwain at gyflyrau iechyd mwy difrifol.

Ym mis Ebrill 2019, cynhaliwyd digwyddiad 'Lles yn y Gweithle' yn Nhŵr Redwither ar Stad Ddiwydiannol Wrecsam. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn gan Gyngor Sir Wrecsam a'i gefnogi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chymdeithas y Sefydliadau Gwirfoddol yn Wrecsam. Mynychodd cyfanswm o 22 sefydliad gyda stondinau gwybodaeth, gan gynnwys Fferyllfa Rowlands, Llinell Gymorth CALL, AURA Leisure, Gyrfa Cymru, Ymddiriedolaeth yr Iau a Grŵp Cymorth Canser y Coluddyn Gogledd Cymru.

Yn arwain o hyn, bu i ni lansio ein menter 'Iechyd Fesul Tamaid yn y Gweithle' sy'n cynnig cyfle i'r cyflogwyr gynnal digwyddiadau i staff ble gallant gael gwybodaeth a chefnogaeth am iechyd a lles yn y gweithle.







I ddechrau, cofrestrodd 8 cyflogwr ddiddordeb, gan gefnogi dros 2,000 o weithwyr sy'n gweithio ar Stad Ddiwydiannol Wrecsam. Daeth y cwmnïau hyn yn rhan o'r fenter beilot Iechyd Fesul Tamaid. Mae hyn wedi ennyn diddordeb a chefnogaeth gan nifer o sectorau, gan gynnwys y sector preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector, sydd eisiau helpu i gyflawni gwelliannau a gwybodaeth ar les i'n poblogaeth oedran gweithio.

Yn ystod y chwarter diwethaf cynhaliwyd digwyddiad mawr yn Wockhardt yn Wrecsam. Cafodd ei gefnogi gan dimau'r Bwrdd Iechyd gan gynnwys dietegwyr, y tîm diabetes, iechyd y geg, iechyd meddwl, staff y fferyllfa, nyrsys arbenigol, tîm lles y gaeaf a therapiau. Rhoddwyd cefnogaeth ychwanegol hefyd gan Fferyllfa Rowlands; a oedd yn cynnig gwiriadau pwysedd gwaed a chyngor ar roi'r gorau i ysmygu i weithwyr a oedd yn bresennol yn y sesiynau.

Darparodd y digwyddiadau hyn gyfle i godi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd cenedlaethol eraill megis y ffliw, ymwybyddiaeth am alcohol, Sextember, imiwneiddio, prawf sgrinio iechyd a Beth am Symud Gogledd Cymru.

Mae'r Iechyd Fesul Tamaid yn cael ei ymestyn i leoliadau cymuned a gwasanaethau eraill y sector gyhoeddus, megis llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, Canolfan Byd Gwaith ac awdurdodau lleol ar draws Gogledd Cymru. Yn ystod mis Hydref, bu i ni gynnal digwyddiad yng nghanolfan byd gwaith Porthmadog ac ym mis Tachwedd bu i ni gydweithio â Chyngor Môn i gynnal digwyddiad mewn lleoliad gwarchod yn Amlwch.

# DIWRNOD AGORED YSBYTY LLANDUDNO



Nododd diwrnod agored yn Ysbyty Llandudno ar 30 Tachwedd 2019 ddechrau taith yr Ysbyty i fod yn 'Ysbyty Hybu Iechyd', safon Sefydliad Iechyd y Byd sy'n ceisio integreiddio hybu iechyd ac addysg, yn yr ysbyty a'r gymuned.

Rydym yn gweithio gyda Chartrefi Conwy, sy'n rheoli'r rhan fwyaf o dai cymdeithasol o amgylch yr Ysbyty, ac sydd â rôl bwysig i gefnogi ymgysylltiad â phreswylwyr lleol.



Yn y diwrnod agored, croesawyd y gymuned leol i'r ysbyty i gael cip y tu ôl i'r llenni ar y gwasanaethau sydd ar gael yn yr ysbyty. Roeddem hefyd yn gallu hybu ein gwaith a'i arddangos a siarad â phobl am broblemau iechyd. Cynigwyd hefyd weithgareddau iach a stondinau gwybodaeth gan y trydydd sector.

Ymwelodd Maer Landudno a chefnogodd Myfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol o Goleg Llandrillo'r digwyddiad a roddodd gyfle iddynt ddysgu am agweddau gwahanol gwaith yn yr ysbyty.

Nod Ysbyty Hybu Iechyd yw annog ffordd o fyw iach ac actif. Roedd cyfle i bawb roi cynnig ar Ioga a Tae Kwon Do neu rhoi tro ar golff a Wii fit neu fwynhau y band iwcalili lleol a ddaeth i chwarae.

Yn ystafell fwyta'r ysbyty, roedd cyfle i bobl siarad â sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector am wasanaethau lleol, cyngor a chefnogaeth wrth fwynhau cawl iach i ginio.

Rhoddodd y diwrnod hefyd gyfle i hybu cyfleoedd recriwtio, gyrfaoedd a chyfleoedd gwirfoddoli yn y Bwrdd Iechyd, ochr yn ochr â sefydliadau allanol sy'n cefnogi pobl i mewn i waith.





# YMGYSYLLTIAD GWLEDIG

Nid yw ein gwaith ymgysylltu gwledig wedi peidio oherwydd bod y tywydd wedi newid; rydym yn rhagweithiol o hyd ac wedi ymweld â nifer o arwerthiannau da byw dros y misoedd diwethaf. Fe fynychon ni farchnad Bryncir ym mis Hydref, roedd y sgyrsiau gyda ffermwyr yn canolbwyntio ar faint oedd wedi cael eu brechiad ffliw neu a oedd yn bwriadu cael y brechiad ffliw. Nid oedd llawer wedi cael y brechiad ac o ganlyniad fe benderfynon ni y byddai hwn yn wasanaeth atal iechyd allweddol y gallwn ni ei ddarparu yn yr arwerthiannau. Fe drefnon ni i ymweld ag arwerthiannau Rhuthun, Dolgellau a Bryncir i ddarparu sesiynau imiwneiddiad rhag y ffliw. Fe aeth fferyllydd cymuned, Fferyllwyr Llŷn i Ddolgellau a Bryncir ac fe aeth Gofal Iechyd Carmella i ocsiwn Rhuthun, gan roi imiwneiddiad i'r rhai nad oedd o bosibl wedi mynd i'w Meddygfa i gael y pigiad.

Roedd adborth cadarnhaol iawn a chafodd y ffermwyr gyfle i drafod pryderon iechyd eraill gyda'r fferyllwyr.

Mae ein ymgysylltiad gwledig wedi cyfrannu at adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru **Cefnogi cymunedau ffermio ar adegau o ansicrwydd, fframwaith gweithredu i gefnogi iechyd meddwl a lles ffermwyr a'u teuluoedd**

Dyma fframwaith i gefnogi lles meddyliol a gwytnwch ffermwyr. Datblygwyd y fframwaith drwy ddod â ffermwyr, undebau amaethyddol, sefydliadau'r trydydd sector a'r sectorau iechyd a pholisi ynghyd i rannu barn, myfyrio ar heriau a datrysiadau a chamau gweithredu posibl.







Roedd ein cyfraniad yn cynnwys tynnu sylw at waith Staff Adran Cleifion Allanol Ysbyty Dolgellau a'r tîm ymgysylltu, drwy ddod ag addysg iechyd i'r gymuned er mwyn cyrraedd y grwpiau hynny sydd o bosibl yn cael anhawster cael mynediad at wasanaethau iechyd. Gwnaethom hefyd dynnu sylw at y dystiolaeth a gasglwyd yn yr arwerthiannau sy'n ymwneud â sut mae materion iechyd meddwl fel straen, pryder a gofid a'r camau rydym yn edrych i'w cymryd fel Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r materion hyn. Codi ymwybyddiaeth a hybu lles meddyliol ymysg ffermwyr a'r gymuned ffermio.

# FFORWM YMARFERWYR YMGYSYLLTU

Mae'r tîm ymgysylltu wedi sefydlu tri fforwm ymarferwyr ymgysylltu ar draws Gogledd Cymru. Mae'r rhwydweithiau hyn i raddau helaeth yn weithwyr proffesiynol sy'n ymgysylltu â'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol sy'n rhannu gwybodaeth ac arfer da, dynodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio, lleihau dyblygu a chyfuno adnoddau.

Mae'r fforymau hefyd yn ymwneud â rhannu heriau cyffredin, tynnu sylw at bryderon a chefnogi ein gilydd.

Dros y chwarter diwethaf mae cymysgedd eang o sefydliadau a grwpiau cymunedol y trydydd sector cyhoeddus wedi bod yn bresennol ac yn cyflwyno ar ystod amrywiol o bynciau, o her ymwrthedd gwrthfiotigau, arfer da ar gyfer ymgysylltiad â chleifion a'r cyhoedd mewn meddygfeydd, datblygu'r agenda Cymru Iachach, llwybrau iechyd ar gyfer pobl hŷn, atal codymau a fferyllfa cymuned, a diweddariadau ar brofion sgrinio iechyd i bartneriaid.





# SESIYNAU E-BUG I YSGOLION CYNRADD

Gan weithio gyda Chydlynwyr Ysgolion Iach a Fferyllfeydd, cynhaliwyd tri digwyddiad ymgysylltu. Bu i ni ddefnyddio adnoddau e-Bug gyda'r athrawon i ddarparu sesiynau yn yr ystafell ddosbarth i godi ymwybyddiaeth o ymwrthedd gwrtficrobaidd a pheryglon camddefnyddio gwrthfiotigau. Ein nod yw parhau i weithio gydag ysgolion i godi ymwybyddiaeth o'r mater pwysig hwn.

